`SDIM CURO PLANT!/
CHILDREN ARE UNBEATABLE! NEWSLETTER

Summer 2008

Welcome to the Summer 2008 Newsletter of the Children Are Unbeatable! Campaign in Wales. The Children are Unbeatable Alliance campaigns to satisfy human rights obligations by modernising the law on assault to give children the same protection as adults. The UK wide campaign lobbies politicians and influences wider society to achieve this long overdue reform.

Launching the CAU/SCP "Help at Hand Toolkit"

Children are Unbeatable would like to thank Jane Hutt AM, Minister for Children, Education and Lifelong Learning & Skills for supporting the launch of this inspiring tool kit at the Senedd back in March 2008. The Minister stated "I am very pleased to endorse this toolkit that I am confident will help to change attitudes and behaviour towards the physical punishment of children in Wales". The event was chaired by Greta Thomas from the NSPCC and was endorsed by Keith Towler the Children's Commissioner for Wales. The launch was well attended with over 40 organisations represented.

The "Help at Hand Toolkit" - Live and (not) kicking!

As a SCP!CAU! supporter, have you ever struggled to share your commitment to ending the physical punishment of children with clients, colleagues, friends and family? In our experience, support and opposition to the campaign sometimes comes from unlikely places. Now, the Help at Hand Toolkit brings together all the materials we, in the campaign, are aware of, including many we have developed ourselves, to promote non-violent parenting, and to campaign for legal change in the UK.

The Help at Hand Toolkit is a web resource, which you can find at: www.helpathandtoolkit.info www.pecyncymorthhelpwrthlaw.info

The toolkit brings together resources, activities and information which can be used to change attitudes and behaviour around the physical punishment of children. The different audiences are considered, and relevant materials are listed.

The materials can be used to:

- Increase the number of people who actively support a change to the law on smacking in the UK
- Decrease the incidence of physical punishment of children
- Decrease the percentage of the population who find the physical punishment of children acceptable

The toolkit is a valuable resource for anyone who is concerned about the rights of children. The variety of materials in the toolkit can be used at work and at home, and are suitable for a wide range of audiences, including children and young people, parents and carers, professionals and policy makers, and civil society.

HELP AT HAND TOOL KIT.....

The toolkit is organised so that you can visit the web site and explore the materials that are useful to you, downloading them as appropriate.

SCP!CAU! have produced a pamphlet, which can be used as a companion to the toolkit. This bilingual pamphlet guides you round the website, and gives examples of the different materials available. The various audiences for the toolkit are discussed, and there are case studies for using the materials with these audiences.

The toolkit has been developed with the support of many individuals and organisations in Wales, including the many colleagues who were involved in our consultation process last year – thank you to all of you. Thanks also to the contributions of organisations who are signed up to the campaign who have made their materials available to the toolkit.

TRAINING OPPORTUNITES FOR USING THE TOOLKIT

Children in Wales are developing a one day training course, called **Using the Help at Hand Toolkit** for practitioners who need support with challenging and changing behaviours and attitudes as part of their work. By the end of the training course participants will:

- Feel confident in raising and dealing with issues of physical punishment with their client group
- Be familiar with the tool kit and access the materials they need
- Be able to prioritise which materials are most useful to them
- Be aware of how the toolkit could be used by other groups or individuals in their work and home life.

The one-day courses will be advertised in the autumn. To register an interest contact Children in Wales on 029 2034 2434 or go to http://www.childreninwales.org.uk/Events/index.html

CAMPAIGN UPDATE ..... CAMPAIGN UPDATE ..... CAMPAIGN UPDATE ..... CAMPAIG

2008: TIME FOR PARLIAMENT TO END THE LEGAL APPROVAL OF HITTING CHILDREN

There is one chance to achieve the vital and long overdue legal reform during the lifetime of this parliament. An amendment will soon be tabled to the Children and Young Persons Bill, to call for them to have equal protection to adults from assault. This would send out the clear message that hitting children is as unacceptable as hitting anyone else.

Put pressure on your Member of Parliament to vote for equal protection for children. Please send the campaign postcards now at:

http://www.childrenareunbeatable.org.uk/postcard-request

Making our Communities Safer – Leanne Woods Assembly Member

A policy report recently published by the Plaid Cymru's Sustainability spokesperson, Leanne Wood, has recently called for the ending of the defence of 'reasonable chastisement' of children and young people. The paper focuses on the future of the criminal justice system in Wales and argues the case for its devolution.
Key recommendations include devolving powers to deal with police, probation, the courts and sentencing to Wales. Under these circumstances an alternative justice strategy could be pursued. An example given in the report is that adults found guilty of smacking children in their care could be sentenced to parenting skills or social work interventions. The report can be accessed on http://www.plaidcymru.org/uploads/publications/319.pdf

INTERNATIONAL NEWS

In January 2008, the Council of Europe Commissioner for Human Rights, Thomas Hammarberg, confirmed, "Europe is moving towards a total ban on domestic violence against children". He called on the minority of European countries, which have not legislated to prohibit all physical punishment of children, or made a commitment to do so, including the UK, to "recognise this as a priority".

At a February meeting in London, Thomas Hammarberg told Westminster MPs: "Smacking children is not just a lesson in bad behaviour, it is a potent demonstration of contempt for the human rights of smaller, weaker people".

PARENTING ACTION PLAN

The Assembly's Children and Young People's Committee (sometimes referred to as the Scrutiny Committee) will be conducting an inquiry into the Parenting Action Plan. The Committee invited individuals and organisations to contribute written evidence to the inquiry (deadline 20 June). The Committee will be looking at whether the implementation of the Parenting Action Plan has been effective and whether positive parenting has been effectively promoted. The Committee will now review the written evidence they have received and make a decision as to who will be invited to give oral evidence. The Inquiry will start in the Assembly's Autumn term and continue into the Spring term after Christmas. A final report with recommendations is unlikely to be available until around June 2009. For more information please visit the Assembly's website
http://www.assemblywales.org/cyp_3___consultation_letter_parenting_action_plan-e.pdf

For more information please contact

Lynne Hill, Policy Director, Children in Wales on 02920 342434
Or email: lynne.hill@childreninwales.org .uk

http://www.childreninwales.org.uk

http://www.childrenareunbeatable.org.uk

CYLCHLYTHYR `SDIM CURO PLANT!/
CHILDREN ARE UNBEATABLE!

Haf 2008

Croeso i Gylchlythyr Haf 2008 yr Ymgyrch 'Sdim Curo Plant! yng Nghymru. Mae Cynghrair 'Sdim Curo Plant yn ymgyrchu i gyflawni rhwymedigaethau hawliau dynol trwy foderneiddio'r gyfraith ar ymosod i roi'r un amddiffyniad i blant ag i oedolion. Mae'r ymgyrch ledled y DU yn lobïo gwleidyddion ac yn dylanwadu ar y gymdeithas ehangach er mwyn sicrhau'r diwygiad hwn, y mae'n hen bryd ei gael.

Lansio "Pecyn Cymorth Help wrth Law" SCP/CAU

Hoffai 'Sdim Curo Plant ddiolch i Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am gefnogi lansiad y pecyn cymorth ysbrydoledig hwn yn y Senedd yn ôl ym mis Mawrth 2008. Dywedodd y Gweinidog "Rwy'n falch iawn o gefnogi'r pecyn cymorth hwn ac rwy'n hyderus y bydd yn helpu i newid agweddau ac ymddygiad tuag at cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru". Cadeiriwyd y digwyddiad gan Greta Thomas o'r NSPCC a chafodd ei gefnogi gan Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru. Daeth nifer dda i'r cyfarfod ac roedd mwy na 40 o sefydliadau'n cael eu cynrychioli.

Y "Pecyn Cymorth Help wrth Law" – Yn fyw ac iach ac yn ddi-drais!

Fel cefnogwr SCP!CAU!, ydych chi erioed wedi cael trafferth i rannu'ch ymrwymiad i roi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol gyda chleientiaid, cydweithwyr, cyfeillion a theulu? Yn ein profiad ni, mae cefnogaeth a gwrthwynebiad i'r ymgyrch weithiau'n dod o leoedd annhebygol. Yn awr, mae'r Pecyn Cymorth Help wrth Law yn dwyn ynghyd yr holl ddeunyddiau yr ydym ni, yn yr ymgyrch, yn gwybod amdanynt, gan gynnwys llawer yr ydym wedi datblygu ein hunain, i hyrwyddo magu plant yn ddi-drais, ac i ymgyrchu am newid i'r gyfraith yn y DU.

Adnodd gwe yw'r Pecyn Cymorth Help wrth Law, sydd i'w weld ar: www.helpathandtoolkit.info www.pecyncymorthhelpwrthlaw.info

Mae'r pecyn cymorth yn dwyn ynghyd adnoddau, gweithgareddau a gwybodaeth y gellir eu defnyddio i newid agweddau ac ymddygiad ynghylch cosbi plant yn gorfforol. Caiff y gwahanol gynulleidfaoedd eu hystyried, ac mae deunyddiau perthnasol wedi'u rhestru.

Gellir defnyddio'r deunyddiau i:

- Gynyddu nifer y bobl sy'n mynd ati i gefnogi newid i'r gyfraith ar smacio yn y DU
- Lleihau nifer yr achosion o gosbi plant yn gorfforol
- Lleihau canran y boblogaeth sy'n meddwl ei bod yn dderbyniol cosbi plant yn gorfforol

Mae'r pecyn cymorth yn adnodd gwerthfawr i unrhyw un sy'n pryderu am hawliau plant. Gellir defnyddio'r amrywiaeth o ddeunyddiau yn y pecyn cymorth yn y gwaith ac yn y cartref, ac maent yn addas at amrywiaeth fawr o gynulleidfaoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a llunwyr polisïau, a'r gymdeithas sifil.

PECYN CYMORTH HELP WRTH LAW.....

Mae'r pecyn cymorth wedi'i drefnu fel y gallwch fynd i'r wefan ac archwilio'r deunyddiau sy'n ddefnyddiol i chi, gan eu lawrlwytho fel y bo'n briodol.

Mae SCP!CAU! wedi cynhyrchu pamffled, y gellir ei ddefnyddio i gyd-fynd â'r pecyn cymorth. Mae'r pamffled dwyieithog hwn yn eich tywys o gwmpas y wefan, ac yn rhoi enghreifftiau o'r gwahanol ddeunyddiau sydd ar gael. Caiff y gwahanol gynulleidfaoedd ar gyfer y pecyn cymorth eu trafod, ac mae yna astudiaethau achos ar gyfer defnyddio'r deunyddiau gyda'r cynulleidfaoedd hyn.

Datblygwyd y pecyn cymorth gyda chymorth nifer fawr o unigolion a sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys y nifer fawr o gydweithwyr a gymerodd ran yn ein proses ymgynghori y llynedd – diolch i chi i gyd. Diolch hefyd i gyfraniadau sefydliadau sydd wedi ymuno â'r ymgyrch ac sydd wedi sicrhau bod eu deunyddiau ar gael i'r pecyn cymorth.

CYFLEOEDD HYFFORDDI AR GYFER DEFNYDDIO'R PECYN CYMORTH

Mae Plant yng Nghymru yn datblygu cwrs hyfforddiant undydd, o'r enw **Defnyddio'r Pecyn Cymorth Help wrth Law** ar gyfer ymarferwyr y mae arnynt angen cymorth gyda herio a newid ymddygiadau ac agweddau fel rhan o'u gwaith. Erbyn diwedd y cwrs hyfforddi bydd y rhai sy'n cymryd rhan:

- Yn teimlo'n hyderus wrth godi ac ymdrin â materion sy'n ymwneud chosbi corfforol gyda'u grŵp cleientiaid
- Yn gyfarwydd â'r pecyn cymorth ac yn gallu cael y deunyddiau y mae arnynt eu hangen
- Yn gallu blaenoriaethu pa ddeunyddiau sydd fwyaf defnyddiol iddynt
- Yn gwybod sut y gallai grwpiau neu unigolion eraill ddefnyddio'r pecyn cymorth yn eu bywyd yn y gwaith ac yn y cartref.

Caiff y cyrsiau undydd eu hysbysebu yn yr hydref. I gofrestru diddordeb cysylltwch â Phlant yng Nghymru ar 029 2034 2434 neu ewch i http://www.childreninwales.org.uk/Events/index.html

DIWEDDARIAD I'R YMGYRCH ..... DIWEDDARIAD I'R YMGYRCH ..... DIWEDDARIAD I'R

2008: PRYD I'R SENEDD ROI TERFYN AR GYMERADWYAETH GYFREITHIOL I DARO PLANT

Mae un cyfle i sicrhau'r diwygiad cyfreithiol hanfodol, y mae'n hen bryd ei gael, yn ystod oes y senedd hon. Cyn bo hir bydd gwelliant i Fesur Plant a Phobl Ifanc yn cael ei roi gerbron, gan alw am iddynt gael amddiffyniad cyfartal ag oedolion rhag ymosodiadau. Byddai hyn yn cyfleu'r neges glir bod taro plant yr un mor annerbyniol â tharo unrhyw un arall.

Rhowch bwysau ar eich Aelod Seneddol i bleidleisio dros amddiffyniad cyfartal i blant. Os gwelwch yn dda, anfonwch gardiau post yr ymgyrch nawr ar:

http://www.childrenareunbeatable.org.uk/postcard-request

Gwneud ein Cymunedau'n fwy Diogel – Leanne Woods Aelod Cynulliad

Mae adroddiad polisi a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Leanne Wood, llefarydd Plaid Cymru ar Gynaliadwyedd, wedi galw am roi terfyn ar amddiffyniad 'cosb resymol' i blant a phobl ifanc. Mae'r papur yn canolbwyntio ar ddyfodol y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru ac yn dadlau'r achos dros ei datganoli.
Mae'r argymhellion allweddol yn cynnwys datganoli pwerau i ymdrin â'r heddlu, y gwasanaeth prawf, y llysoedd a dedfrydu i Gymru. O dan yr amgylchiadau hyn gellid mynd ar ôl strategaeth cyfiawnder amgen. Un enghraifft a roddir yn yr adroddiad yw y gallai oedolion a geir yn euog o smacio plant dan eu gofal gael eu dedfrydu i ymyriadau sgiliau magu plant neu waith cymdeithasol. Gellir gweld yr adroddiad ar http://www.plaidcymru.org/uploads/publications/319.pdf

NEWYDDION RHYNGWLADOL

Ym mis Ionawr 2008, cadarnhaodd Thomas Hammarberg, Comisiynydd Hawliau Dynol Cyngor Ewrop ,"Mae Ewrop yn symud tuag at waharddiad llwyr ar drais domestig yn erbyn plant". Galwodd ar y lleiafrif o wledydd Ewropeaidd, nad ydynt wedi deddfu i wahardd pob cosb gorfforol i blant, nac wedi ymrwymo i wneud hynny, gan gynnwys y DU, i "gydnabod hyn fel blaenoriaeth".

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Chwefror, dywedodd Thomas Hammarberg wrth Aelodau Seneddol San Steffan: "Mae smacio plant yn fwy na gwers mewn ymddygiad drwg; mae hefyd yn arddangosiad pwerus o ddirmyg tuag at hawliau dynol pobl lai a gwannach".

CYNLLUN GWEITHREDU RHIANTA

Bydd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad (y cyfeirir ato weithiau fel y Pwyllgor Craffu) yn cynnal ymchwiliad i'r Cynllun Gweithredu Rhianta. Gwahoddodd y Pwyllgor unigolion a sefydliadau i gyfrannu tystiolaeth ysgrifenedig at yr ymchwiliad (dyddiad cau 20 Mehefin). Bydd y Pwyllgor yn ystyried a weithredwyd y Cynllun Gweithredu Rhianta yn effeithiol ac a yw magu plant yn gadarnhaol wedi cael ei hyrwyddo'n effeithiol. Yn awr bydd y Pwyllgor yn adolygu'r dystiolaeth ysgrifenedig a maent wedi'i chael ac yn penderfynu pwy fydd yn cael gwahoddiad i roi tystiolaeth lafar. Bydd yr Ymchwiliad yn dechrau yn nhymor hydref y Cynulliad ac yn parhau yn nhymor y gwanwyn ar ôl y Nadolig. Mae'n annhebygol y bydd adroddiad terfynol gydag argymhellion ar gael tan o gwmpas mis Mehefin 2009. I gael mwy o wybodaeth ewch i wefan y Cynulliad http://www.assemblywales.org/cyp_3___consultation_letter_parenting_action_plan-e.pdf

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â

Lynne Hill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru ar 02920 342434
Neu anfonwch e-bost at: lynne.hill@childreninwales.org .uk

http://www.plantyngnghymru.org.uk

http://www.childrenareunbeatable.org.uk